Cyngor Cymuned BODORGAN
Cofnodion Cyfarfod Nos Fawrth 18fed Medi 2018.

1 Presennol:

Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Alwyn Rowlands (Is-Gadeirydd),
Mr Tim Owen, Mr Gwilym Looms, Mr Andrew Hughes, Mr Myfyr Davies,
Mr Jeff Hughes, Mr Selwyn Williams & Mr Gareth Evans.

Cynghorwyr Sirol: Mr Bryan Owen & Mr Peter Rogers.

2 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Hefyd, eglurodd fod y Clerc yn methu a bod yn bresennol o achos gwaeledd, ac y byddai yn gwneud ymdrech i gadw cofnodion.

3 Datgan Diddordeb:

Mr Dafydd Jones – Eitem Y Ganolfan.
Mr Andrew Hughes – Cais Cynllunio, Llwyn Derwen
Mr Jeff Hughes – Ceisiadau Cynllunio, Fferm Pen y Bont.

4 Derbyn & Cywiro Cofnodion:

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar y 13eg Awst 2018 yn gywir. **(AR/TO).**

4.2 Nodwyd fod angen cywiriad bychan sillafu "bws" yng nghofnod 5:5 o Gyngor Llawn a gynhaliwyd ar y 17eg o Orffennaf 2018.

4.3 Methodd y Cadeirydd symud ymlaen cywiro gweddill y cofnodion gan nad oedd y Cynghorydd Mr Gwilym Looms yn fodlon derbyn 6:2 am resymau aneglur ac felly nid oedd yn fodlon symud ymlaen i dderbyn y cofnodion. Fe wnaeth ef a'r Cynghorydd Andrew Hughes nifer o ymdrechion i gael trafod Mynwent Capel Bethel, er i'r Cadeirydd wneud yn glir y cae hynny ei wneud wedi derbyn y cofnodion. Yr oeddent hefyd angen trafodaeth a'r Adran 137 o'r Ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol. Darllenodd y Cadeirydd ddogfen a oedd yn berthnasol, ond nid oedd dim yn tycio.

4.4 Oherwydd ~~y trafferthion gyda y ddau aelod a'r~~ methiant i dderbyn y cofnodion, penderfynodd y Cadeirydd nad oedd modd cario ymlaen gyda'r cyfarfod a datganodd ei fod yn dod ar cyfarfod i ben wedi trafod y ceisiadau cynllunio a oedd gerbron, ac un mater cyllid cyfrinachol.

5 Ceisiadau Cynllunio Newydd

5.1 Cais Bennu Caniatad Blaenorol ar gyfer codi Sied Amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid a peiriannau a bwyd amaethyddol ar dir yn:

LLEOLIAD: Fferm Pen y Bont, Malltraeth, Bodorgan – 15C30J.
PENDERFYNIAD: DIM SYLWADAU.

Arwyddo.....

5.2 Cais Llawn ar gyfer Addasu & Ehangu yn:

LLEOLIAD: Trefle, Bodorgan – 15C164D.
PENDERFYNIAD: DIM SYLWADAU.

5.3 Cais Llawn ar gyfer codi Sied Amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid a peiriannau a bwyd amaethyddol ar dir yn:

LLEOLIAD: Fferm Pen y Bont, Malltraeth, Bodorgan – 15C30K.
PENDERFYNIAD: DIM SYLWADAU.

5.4 Cais Llawn newid defnydd modurdy presennol i anecs hunangynalidwy ynghyd ag Addasu & Ehangu yn cynnwys ardal dec yn:

LLEOLIAD: Llwyn Derwen, Bodorgan – 15C46E.
PENDERFYNIAD: DIM SYLWADAU.

5.5 Cais Llawn Addasu & Ehangu (Gwybodaeth Arfaethedig & Ychwanegol) yn:

LLEOLIAD: Cartref y Rhos, Malltraeth, Bodorgan – 15C1M.
PENDERFYNIAD: DIM SYLWADAU.

6 MATERION CYLLID.

6.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Swyddfa Archwilio Cymru, gan bwysleisio fod yr hyn yr oedd yn ei ddatgelu yn hollol gyfrinachol. Eglurwyd nad oedd adroddiad i law, dim ond dogfen ffeithiol yn gofyn am sylw ar gywirdeb yr hyn yr oedd yr archwiliwr wedi ei ddarganfod. Darllenwyd y dudalen olaf o'r ddogfen Saesneg ac fe fydd rhaid disgwyl yn awr am benderfyniad y Swyddfa i wneud diffygion y Cyngor yn gyhoeddus.

7 MATERION CYFARFOD Y CYNGOR.

7.1 Cododd y Cynghorydd Looms gwestiwn ar pam nac ydi "Unrhyw fater arall" yn ymddangos ar yr agenda ddim mwy. Datganodd nad oedd y Cyngor wedi gwneud penderfyniad i'w ddiddymu. Ceisiodd y Cadeirydd egluro nad oedd hyn y ffordd cywir i'w gynnwys yn unol a rheolau statudol ond fod gan y Cadeirydd yr hawl i'w ganiatáu. Hefyd, ni fuasai modd gwneud unrhyw benderfyniad heblaw ei gynnwys ar agenda y cyfarfod nesaf. Nid oedd yr eglurhad yma yn dderbyniol ac fe oedd eisiau sylw y Clerc ar y pwynt. Yn dilyn hyn, terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....22/1/2019.....**Dyddiad.**